



## SWYDDOGOL

Ein Cyf:

Dyddiad:

Annwyl

### Cyfeirnod Llys:

#### **Pam ydych chi'n derbyn y llythyr hwn?**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ein bod wedi derbyn cais gan y Llys Teulu. Y rheswm am hyn yw eich bod chi neu rywun yn eich teulu wedi gwneud cais i'r Llys am blant yn eich teulu, er enghraifft am bwy maen nhw'n byw gyda nhw neu'n treulio amser gyda nhw.

Fel arfer, pan fydd y Llys Teulu yn anfon cais at Cafcass Cymru, gofynnir i ni weithio gyda'r teulu. Y cam cyntaf a gymerwn yw gwirio gyda'r gwasanaeth plant a'r heddlu i weld a yw'n ymwybodol o unrhyw bryderon diogelwch. Weithiau, os oes gan eich plentyn weithiwr cymdeithasol Awdurdod Lleol, gallai'r Llys Teulu benderfynu ei bod yn well i'r gwasanaethau i blant wneud y gwaith hwn yn lle hynny.

Byddwn fel arfer yn siarad â'r holl oedolion sy'n ymwneud â'r achos ac yn aml i'r plant. Efallai y byddwn hefyd yn siarad â chi am asiantaethau eraill yr hoffem siarad â nhw neu wneud ymholiadau â nhw. Lle bo'n ddiogel i wneud hynny, byddwn yn ceisio eich helpu chi a'r oedolion eraill i wneud trefniadau diogel sydd er lles gorau'r plant, a byddwn am wybod beth mae'r plant yn ei feddwl a beth fydd yn gweithio'n dda iddyn nhw.

Byddwn yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y Llys sy'n rhoi crynodeb o'n gwaith a chi, o'r enw Adroddiad Effaith ar Blant. Bydd yr adroddiad yn cael ei ffeilio gyda'r Llys a byddwch chi a'r oedolion eraill sy'n cymryd rhan yn yr achos fel arfer yn cael copi. Bydd yr ymarferydd Cafcass Cymru a ddyrennir i'ch achos yn esbonio mwy am y ffordd y byddwn yn gweithio gyda chi.

Byddwn mewn cyswllt â chi i drafod trefniadau pellach.

**Mae rhywfaint o'r wybodaeth bwysig sydd ei hangen arnom i wneud yn siŵr eich bod yn cymryd rhan lawn yn yr hyn sy'n digwydd nesaf yn eisiau. Cysylltwch â'n swyddfa cyn gynted â phosibl drwy e-bost neu dros y ffôn, gan roi'r canlynol i ni:**

- Rhif ffon
- Dyddiad geni

Ffôn • Tel: 03000 625821  
Ffacs • Fax:  
[cafcasscymrunorthwales@llyw.cymru](mailto:cafcasscymrunorthwales@llyw.cymru)  
Gwefan • Website:  
<https://www.llyw.cymru/cafcass-cymru>

Cafcass Cymru • Cafcass Cymru  
Llywodraeth Cymru • Welsh Government  
Sarn Mynach • Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno • Llandudno Junction  
LL31 9RZ



**E-bost:** [cafcasscymrunorthwales@llyw.cymru](mailto:cafcasscymrunorthwales@llyw.cymru)

**Rhif ffon:** 03000 625821

Ar ein gwefan <https://llyw.cymru/cafcass-cymru> ceir gwybodaeth ddefnyddiol i rieni sydd wedi gwahanu, a all eich helpu i feddwl sut y gall achosion effeithio ar blant ynghyd â gwybodaeth i oedolion a phlant am broses y Llys.

Os ydych yn teimlo eich bod mewn perygl neu wedi bod yn destun cam-drin domestig, gallwch gysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 80 10 800 neu fynd i'r wefan yn <https://llyw.cymru/byw-heb-ofn>. Gwasanaeth am ddim yw hwn i fenywod a dynion ac mae hefyd yn rhoi cyngor i aelodau'r teulu a allai fod yn pryderu am rywun.

### Eich gwybodaeth

Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae Cafcass Cymru wedi llunio Hysbysiad Preifatrwydd sy'n esbonio pa wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu, pam yr ydym yn ei chasglu, o ble yr ydym yn ei chasglu, yr hyn yr ydym yn ei wneud â'r wybodaeth, â phwy yr ydym yn ei rhannu, am ba hyd yr ydym yn ei chadw a sut yr ydym yn ei chadw'n ddiogel. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi eich hawliau chi hefyd o dan GDPR y DU mewn cysylltiad â'ch gwybodaeth bersonol. Gallwch ddod o hyd i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan yn <https://llyw.cymru/cafcass-cymru/sut-yr-ydym-yn-defnyddio-eich-gwybodaeth> neu os hoffech gopi mewn fformat gwahanol, gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Cafcass Cymru leol a byddwn yn rhoi copi i chi.

Bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa i roi gwybod i ni am unrhyw newid i'ch cyfeiriad, manylion cyswllt neu gynrychiolaeth gyfreithiol ac **os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost yn gywir er mwyn cael eich copïau o adroddiadau'r llys yn electronig.**

Rhowch wybod i ni os oes angen cymorth arnoch o ran cyfathrebu neu ddehongli iaith, er mwyn i ni allu gwneud y trefniadau angenrheidiol ar eich cyfer.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

Yn gywir

### Cafcass Cymru

Ffôn • Tel: 03000 628877  
Ffacs • Fax:  
[cafcasscymrunorthwales@llyw.cymru](mailto:cafcasscymrunorthwales@llyw.cymru)  
Gwefan • Website:  
<https://www.llyw.cymru/cafcass-cymru>

Cafcass Cymru • Cafcass Cymru  
Llywodraeth Cymru • Welsh Government  
Sarn Mynach • Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno • Llandudno Junction  
LL31 9RZ